Ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Leihau Allyriadau Carbon drwy'r Defnydd o Dir gan Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig

Medi 2009

Mae chwarae ein rhan er mwyn delio a'r newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau yn ganolog i bolisïau a gweithredoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rwy'n falch iawn fy mod wedi derbyn adroddiad sy'n ategu ein polisïau ni ac sydd hefyd yn cynnwys nifer o argymhellion defnyddiol iawn.

Mae'r argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn yn cysyllltu'n agos â'n polisïau presennol ni ac rwy'n falch fy mod yn gallu derbyn y mwyafrif ohonynt. Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i rai ohonynt ond rwy'n cefnogi'r bwriad sydd y tu ôl i'r camau gweithredu arfaethedig ac rwy'n credu y dylid cymryd camau er mwyn sicrhau'r canlyniadau a fwriadwyd. Mae sicrhau undod mewn perthynas â'r hyn sydd angen ei wneud yn hanfodol os ydym am gyflawni'r amcanion cyffredinol hyn.

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer Glastir bob blwyddyn i sicrhau bod digon o gyllid ar gael i ateb y galw.
Derbyn mewn egwyddor. Mae fy swyddogion yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu a rheoli'r arian sydd ar gael drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig er mwyn sicrhau ein bod yn gwario'r hyn sydd ar gael i gefnogi'r diwydiant amaethyddol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y cymorth ariannol wedi'i gyfyngu gan yr arian Ewropeaidd a domestig sydd ar gael, fel y gwelir ym meysydd eraill y Llywodraeth. Yr hyn sy'n hanfodol bwysig yw ein bod yn cydweithio gyda chyflenwyr er mwyn sicrhau bod y nwyddau a'r gwasanaethau amgylcheddol yr ydym yn eu prynu yn addas at y diben.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo'r manteision economaidd sydd ynghlwm wrth fesurau arbed carbon Glastir, gan wneud hynny fel rhan o'r cynllun.
Derbyn. Mae'n bleser gennyf gyhoeddi y byddwn, fel rhan o'r cynllun Glastir, yn sicrhau bod £5 miliwn y flwyddyn ar gael mewn cymorth grant cyfalaf ar gyfer gosod technoleg lleihau carbon ar ffermydd. Bydd angen i ymgeiswyr am yr arian ddangos y bydd gosod y dechnoleg hon ar eu ffermydd yn lleihau eu costau a'u hôl troed carbon (bydd asesiad ôl-troed carbon yn rhan o'r broses ymgeisio). Yn ogystal, bydd yr elfen Newid yn yr Hinsawdd newydd o'r gwasanaeth Cyswllt Ffermio yn darparu mentoriaid er mwyn cynghori ffermwyr ar fabwysiadu'r technolegau priodol ar gyfer lleihau eu hallyriadau a'u costau.

Argymhelliad 3 : Dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU a'r UE i sicrhau bod lleihau allyriadau carbon yn un o amcanion allweddol unrhyw gynllun taliadau sydd ar gael i bob fferm yn ystod adolygiad nesaf y Polisi Amaethyddol Cyffredin.
Derbyn. Mae'r PAC yn chwarae rhan gref o ran mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a lliniaru'i effeithiau ac mae camau wedi'u cymryd eisoes i gynnwys pryderon am y newid yn yr hinsawdd yn y PAC a hynny drwy Agenda'r Her. Yn ogystal, nodwyd bod y newid yn yr hinsawdd yn faes blaenoriaeth gan y Pwyllgor Sefydlog ar Ymchwil Amaethyddol (SCAR), a sefydlwyd gweithgor o reolwyr rhaglenni cenedlaethol er mwyn ystyried sut y mae'r newid yn yr

hinsawdd yn effeithio ar amaethyddiaeth, a sut y gall amaethyddiaeth fynd ati i addasu ar gyfer yr effeithiau hyn a'u lliniaru.
Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gydweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn sicrhau bod amaethyddiaeth yn chwarae ei ran wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd drwy leihau ei allyriadau nwyon ei hun, gwella gallu pridd amaethyddol i weithredu fel dalfa carbon, a chyfrannu at y broses o gynhyrchu ynni adnewyddadwy a bio-nwyddau.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu gwasanaeth penodol i ffermwyr a rheolwyr tir sy'n rhoi gwybodaeth iddynt am leihau allyriadau carbon.

Derbyn. Bydd Rhaglen Ddatblygu Cyswllt Ffermio ar gyfer y newid yn yr Hinsawdd yng Nghymru yn codi ymwybyddiaeth o'r materion (risgiau, cyfrifoldebau a chyfleoedd) ac yn cydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu opsiynau ymarferol a chynaliadwy er mwyn helpu rheolwyr tir i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Bydd y rhaglen yn cefnogi'r diwydiant drwy ystod o wasanaethau hyfforddi a throsglwyddo gwybodaeth, gan sicrhau bod yr wybodaeth ar gael er mwyn helpu rheolwyr tir i fabwysiadu dulliau newydd o weithredu, dangos arferion da a thechnolegau newydd ar y fferm, rhannu syniadau a'u hannog i fod yn arloesol.
Bydd gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar lefel leol a bydd yn berthnasol i anghenion y diwydiant gan ddefnyddio technegau sydd wedi'u profi megis ffermydd arddangos, digwyddiadau a grwpiau trafod. Caiff yr holl weithgareddau eu cefnogi gan Swyddogion Hyrwyddo Trosglwyddo Gwybodaeth Rhanbarthol, sydd â phrofiad o arbenigedd technegol a sgiliau cyfathrebu.
Bydd y Rhaglen Ddatblygu newydd ar y Newid yn yr Hinsawdd yn cydweithio gyda Rhaglenni Datblygu presennol Cyswllt Ffermio (Llaeth, Cig Coch, Organig a Rheoli Tir). Gyda'i gilydd byddant yn rhoi cefnogaeth i'r diwydiant ar themâu trawsbynciol eraill megis rheoli amgylcheddol, iechyd anifeiliaid, lles a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r syniad o ddatblygu a chyflwyno dull o fesur ôl-troed carbon y gall pob ffermwr a rheolwr tir ei ddefnyddio gan wneud hynny cyn gynted â phosibl. Dylid ei gyflwyno'n raddol gan gynnig cyngor a chymorth i bob ffermwr a rheolwr tir ynglŷn â sut i'w ddefnyddio.

Derbyn. Dyfarnwyd Rhaglen Ddatblygu Cyswllt Ffermio ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd i Brifysgolion Aberystwyth a Bangor sydd â phrofiad helaeth o gyfrif allyriadau carbon ar gyfer ffermwyr a rheolwyr tir. Mae hyn yn cynnwys offer i fesur allyriadau ar y fferm yn ogystal ag offer mesur ôl-troed carbon.
Caiff y broses o gyflwyno gwybodaeth ar reoli'r defnydd o ynni a lleihau allyriadau carbon ei rhaeadru drwy nifer o wahanol ddulliau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth megis grwpiau trafod, ffermydd datblygu a digwyddiadau arddangos ar ffermydd.
Bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth am fanteision cyfrif ôl-troed carbon i'r diwydiant.
Gall ffermwyr a rheolwyr tir wneud cais am gymorth a chyngor pellach â chymhorthdal ar reoli allyriadau carbon drwy Cynllun y Fferm Gyfan Cyswllt Ffermio.

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu dulliau o rannu datblygiadau gwyddonol â ffermwyr a pherchnogion tir er mwyn pwysleisio sut y gallant helpu i leihau allyriadau carbon yn ogystal â phwysleisio'r manteision economaidd.
Derbyn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyfarnu'r contract ar gyfer Canolfan Ddatblygu Cyswllt Ffermio ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd i Brifysgol Bangor mewn cydweithrediad ag IBERS. Bydd hyn yn gymorth i hwyluso'r gwaith o drosglwyddo gwyddoniaeth a thechnoleg oddi wrth yr ymchwilwyr i'r ffermwyr a'r tirfeddianwyr.

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar ffigur sylfaenol i nodi faint o garbon sydd mewn priddoedd organig yng Nghymru ar hyn o bryd a dylai'r holl gyrff sy'n gweithio yn y maes hwn ddefnyddio'r ffigur hon.
Derbyn. Yr oedd adroddiad ECOSSE 2007 yn rhoi'r amcangyfrif mwyaf cywir ar gyfer cyfanswm y stoc carbon a dosbarthiad y carbon mewn priddoedd yng Nghymru. Mae sefydliadau, asiantaethau a chyrff ymchwil y Llywodraeth yn ystyried y nifer hwn fel y llinell sylfaen. Fodd bynnag, mae'r swm o 408 megatunnell o garbon yn agored i gyfeiliornadau sylweddol sydd heb eu meintioli. Bydd canfod swm sy'n fwy cywir ar gyfer stociau carbon priddoedd yn gofyn am lawer o waith arolygu ar y priddoedd. Amhosib yw amcangyfrif y tueddiadau mewn stociau carbon cyfan heb gynnal yr arolygiadau hyn.
Yn hytrach na monitro tueddiadau yn stociau carbon y priddoedd, mae'r ymdrechion yn canolbwyntio ar fonitro newidiadau yng nghrynodiadau carbon y pridd mewn safleoedd ledled Cymru, yn seiliedig ar sampl cynrychioliadol o briddoedd. Rydym wedi mabwysiadu dull Arolwg Cefn Gwlad o gasglu stoc carbon priddoedd fel ffordd o fonitro'r newid ym 15cm uchaf y pridd lle mae'r newidiadau yn fwyaf tebygol o ddigwydd ac o gael eu canfod.

Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi ymchwil sydd ar y gweill ar hyn o bryd i gadw carbon mewn priddoedd yng Nghymru a defnyddio'r darganfyddiadau hynny wrth greu polisïau defnyddio tir a pholisïau amaethyddol, cyn gynted ag y byddant ar gael.
Derbyn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd rhan yn y gwaith o reoli'r gyllideb ymchwil sy'n cael ei rhannu gyda DEFRA, sy'n cadw cyllideb ymchwil a datblygu Cymru a Lloegr. Y mae hefyd yn ariannu ychydig bach o waith ymchwil ei hun er mwyn cwmpasu materion sy'n ymwneud â phriddoedd Cymru yn bennaf, yn enwedig o ran rheoli carbon mewn priddoedd. Cafodd ECOSSE 1 ei ariannu gan Weithrediaeth y Alban a Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac ariannwyd y gwaith dilynol er mwyn asesu'r broses o roi ECOSSE ar waith mewn rhannau o Gymru. Mae canfyddiadau'r prosiect hwn yn cael eu cynnwys yn Glastir lle bo hynny'n briodol.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU a'r UE i sicrhau bod rheoliadau pendant ar gael i ddiogelu priddoedd.
Derbyn. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cysylltu gyda DEFRA sy'n arwaintrafodaethau'r DU ar Gyfarwyddeb Fframwaith Priddoedd yr UE. Cytunwyd bod angen sicrhau lefel uchel o ddiogelwch rheoliadol i briddoedd, ond mae'r trafodaethau yn ymwneud yn bennaf â'r dulliau gorau o ddarparu'r diogelwch hwnnw.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r ymchwil sydd ar y gweill i ddylifiadau carbon mewn priddoedd at ddibenion plannu coed yng Nghymru a defnyddio'r darganfyddiadau hynny wrth greu polisïau defnyddio tir a pholisïau amaethyddol, cyn gynted ag y byddant ar gael.
Derbyn. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ariannu'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru. Mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Coedwigaeth yn yr Alban ac yn Lloegr, Comisiwn Coedwigaeth Cymru sy'r rheoli cyfeiriad y gwaith ymchwil ar gyfer yr Asiantaeth Ymchwil Coedwigaeth. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd y gwaith

ymchwil hwn yn cael ei gynnwys ym mholisi coedwigaeth Cymru. Ers cynnal yr ymchwiliad, mae Ymchwil Coedwigaeth wedi darparu mwy o 'rifau carbon' a fydd yn caniatáu i'r Comisiwn Coedwigaeth feintioli effeithiau carbon yr opsiynau polisi ar gyfer coedwigaeth Cymru ee coetiroedd cynhenid a chymysg newydd ar briddoedd mwynol wedi eu rheoli heb gwympo'r holl goed yn y coetir. Bydd grŵp y Gweinidog ar Ddefnydd Tir y Newid yn yr Hinsawdd ynghyd â'r gwaith parhaus i ddatblygu'r Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd yn derbyn adroddiad sylweddol ar yr effeithiau hyn.

Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r Comisiwn Coedwigaeth i gyflwyno ac i farchnata cynnyrch pren fel deunyddiau amgen ar raddfa fasnachol.
Derbyn mewn egwyddor. Mae'r argymhelliad hwn yn cydnabod y gall defnyddio pren yn hytrach na deunyddiau eraill, yn enwedig yn y maes adeiladu gyfrannu sylweddol at y gwaith o leihau allyriadau, ac mae hynny'n ddefnyddiol iawn. Fodd bynnag, mae'r cam hwn yn ymestyn y tu hwnt i gylch gwaith y Comisiwn Coedwigaeth ac mae'n gofyn am weithredu sydd wedi'i gyd-gysylltu. Mae gan adrannau eraill o Lywodraeth Cynulliad Cymru gan gynnwys caffael, datblygu economaidd a gwasanaethau cyhoeddus rôl sylweddol i'w chwarae o ran cefnogi a mynnu defnyddio nwyddau pren [hyd yn oed os yw wedi'i fewnforio] fel deunydd carbon isel sy'n cefnogi agenda ehangach y Llywodraeth ar y newid yn yr hinsawdd.

Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymchwil i'r modd y gellir rhoi cynllun masnachu carbon ar waith, yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y sector defnyddio tir.
Gwrthod. Mae DEFRA wedi ariannu astudiaeth ddichonoldeb ar ddatblygu cynllun masnachu carbon o fewn y sector amaethyddol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y byddai costau gweinyddu cynllun o'r fath yn y DU yn uchel o'u cymharu â'r arbedion posibl. Y rheswm am hyn yw

- ei bod hi'n anodd dilysu'r allyriadau carbon sydd wedi'u harbed neu'u storio o ganlyniad i ddefnydd / rheolaeth tir penodol.
- mae angen storio carbon yn barhaol ac ni ddylid ei ollwng yn rhydd rhywbryd yn y dyfodol oherwydd newid yn y defnydd tir a'r ffordd y caiff ei reoli,
- mae'r nifer uchel o ffermwyr a thirfeddianwyr yn gwneud y gwaith gweinyddol yn gostus iawn.